# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru Rhif 80 |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 4 Mawrth 2025 |
| **Amser y cyfarfod:** | 10.30am – 12.30pm |
| **Yn bresennol:**<br><br>**(* = yn dirprwyo ar ran cynrychiolydd a enwir)** | **Aelodau a chynrychiolwyr a enwir:**<br><br>Geraint Davies (Cadeirydd CNC), Ruth Rourke (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad a Dirprwy Gadeirydd), Carys Drew (Ysgrifennydd CNC), Rosie Plummer (CNC), Lesley Jones (CNC), Beverley Penney (Cymdeithas y Mannau Agored), Jont Bulbeck (CNC), Bill Purvis (CNC), Chris Mills (Afonydd Cymru), John O'Connor (Angling Cymru), Charles de Winton (Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad), Barry Andrews (Y Cerddwyr Anabl), Jen Newman (Dŵr Cymru), David Evans (Cwm Elan), Teleri Fielden (Undeb Amaethwyr Cymru), Ian Mabberley (Fforymau Mynediad Lleol), Rebecca Brough (Y Cerddwyr), Sarah Smith (LlC), Fiona Clay-Poole (CLlLC), Scott Ashworth (Ystadau Amddiffyn), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Phil Stone (Canŵ Cymru), Adrian Walls (Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru), Dave Waterman (LARA), Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru), Simon Patton (Mountain Training Cymru), Eben Muse (Cyngor Mynydda Prydain), Pam Bell (Dyfroedd Cymru)<br><br>**Sylwedyddion:** Kate Ashbrook (Cymdeithas y Mannau Agored), Angela Charlton (Y Cerddwyr), Matt Cloud (Cyngor Sir Penfro), Eifion Jones (Cyngor Sir Ceredigion), Gruff Owen (CNC), Rachel Parry (CNC), Ian Hughes (CNC), Michael Smith (CNC) – *roedd sylwedyddion eraill yn bresennol ond nid yw'r enwau wedi'u cofnodi (ar gyngor GDPR)*<br><br>**Siaradwyr:**Natalie Small (LlC), Olivia Ragone (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Roz Owen (CNC) |
| **Ymddiheuriadau:** | Helen Donnan (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Rachel Lewis-Davies (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr), Steve Rayner (Cymdeithas Twristiaeth Antur Cymru) |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd, Geraint Davies, bawb i’r cyfarfod, a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Nododd y Cadeirydd mai dyma ei gyfarfod olaf gan fod ei dymor fel aelod o Fwrdd a Chadeirydd CNC yn dod i ben a chroesawodd Lesley Jones, Bwrdd CNC, i’r cyfarfod fel y Cadeirydd newydd. Mae Rosie Plummer, Bwrdd CNC, hefyd yn dod at ddiwedd ei thymor a diolchodd iddi am ei chyfraniadau at y fforwm.

Croesawyd Teleri Fielding fel cynrychiolydd newydd ar gyfer Undeb Amaethwyr Cymru.

## 2. Map digidol o hawliau tramwy cyhoeddus

Natalie Small, dadansoddwr daearyddol yn yr Is-adran Data a Daearyddiaeth, LIC. Mae’r tîm yn berchen ar gynnyrch MapDataCymru. Mae’r tîm yn gweithio’n agos gyda’r tîm Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad yn LIC, sy’n arwain y prosiect hwn.

Nododd Natalie y cefndir a’r amserlen ar gyfer sut roedd y gwaith wedi datblygu ers cynnig cychwynnol Llywodraeth Cymru yn 2015. Yn 2024, ffurfiwyd Gweithgor Map Digidol er mwyn dechrau ymchwilio i hyn. Y cam cyntaf oedd casglu data hawliau tramwy cyhoeddus presennol, er mwyn dechrau cynhyrchu copi gweithio digidol o’r hawliau tramwy cyhoeddus ledled Cymru.

Mae’r Gweithgor Map Digidol wedi bod yn gweithio gydag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys MapDataCymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, i ddechrau uno data hawliau tramwy cyhoeddus ar MapDataCymru.

Mae MapDataCymru yn ffynhonnell ddata geo-ofodol gydnabyddedig ar gyfer data’r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r platfform yn galluogi awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydweithio a rhannu data gyda’i gilydd a’r cyhoedd. Dangosodd Natalie sut i lywio prif gydrannau MapDataCymru.

Esboniodd mai’r trwyddedu sy’n llywodraethu’r hyn y gellir ei weld, felly ar y rhan gyhoeddus o MapDataCymru, gellir gweld yr holl ddata Trwydded Llywodraeth Agored heb fod angen mewngofnodi. Mae yna ddata trwydded gyfyngedig hefyd, sydd ar gael i awdurdodau cyhoeddus ac sy’n gofyn i ddefnyddwyr fewngofnodi. Mae rhannu a defnyddio data cyfyngedig yn cael ei hwyluso gan grwpiau caniatâd ar y platfform.

Ar gyfer y map digidol o hawliau tramwy cyhoeddus, dywedodd mai’r nod yw cael copi gweithio digidol o hawliau tramwy cyhoeddus i Gymru ar MapDataCymru. Dyma gam cyntaf y gwaith ac mae’n archwiliol. Mae prawf o gysyniad yn cael ei ddatblygu o’r data a dderbyniwyd o gipluniau o ddata awdurdodau lleol. Yn y camau cynnar hyn, bydd y gwaith yn datblygu’n ailadroddus, mewn cydweithrediad â’r awdurdodau lleol a’r Parciau Cenedlaethol. Yn ddiweddarach, bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach. Mae’r cydweithio parhaus wedi bod yn wirioneddol fuddiol ac yn bwysig i’r prosiect.

Bydd yr haen yn seiliedig ar sgema syml, sef dosbarthiad hawliau tramwy cyhoeddus fel llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig. Wrth i hyn gael ei ddatblygu, bydd yn cael ei rannu â'r awdurdodau lleol a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo trwy gam cyntaf y prosiect, sy'n cynnwys dod â'r data o'r holl awdurdodau gwahanol hyd yn hyn ynghyd, a chreu prawf o gysyniad, i'w brofi a'i ddatblygu ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys casglu'r data. Hyd yn hyn, derbyniwyd 22 allan o 25 set ddata. Mae cymysgedd o wahanol fformatau data gofodol yn cael eu defnyddio. Ar ôl derbyn data, dilynir hyn gyda set o gwestiynau cychwynnol am y set ddata, sy'n cynnwys deall mwy am y raddfa wylio, yr arddull, sut y mae wedi'i ddigideiddio, ac a yw wedi'i drosi i raglen gwella cywirdeb lleoliadol yr Arolwg Ordnans, a gwybodaeth arall, gan gynnwys pa ymwadiadau a chwestiynau trwyddedu y dylid eu cynnwys. Helpodd yr holl ddata a gasglwyd i nodi pwyntiau i'w trafod gydag awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol, a ystyriwyd yn y digwyddiadau rhanddeiliaid diweddar.

Ar ôl derbyn y data, mae angen prosesu'r data, gan ddechrau nodi'r statws a'r categorïau math ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a'u cofnodi mewn tabl neu chwiliad mynegai. Y bwriad yw defnyddio hwn yn ddiweddarach i safoni'r amrywiadau yn y termau, cynnal gwaith dilysu geometreg a rhoi adborth, a thrawsnewid y data i fformat gwahanol fel y gellir ei ychwanegu at MapDataCymru.

Yn olaf, cyflwyno'r data, pan fydd y data wedi'i ychwanegu i ddatblygu'r prawf o gysyniad. Gan fod y derminoleg statws a math yn amrywio rhwng setiau data, mae creu a phrofi tabl chwilio yn dal i fynd rhagddo. Dangoswyd y prawf o gysyniad cychwynnol i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol yn y digwyddiadau rhanddeiliaid, ac mae'n cynnwys 18 o'r setiau data. Fe wnaeth hyn ysgogi llawer o drafodaeth ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio i gynllunio'r camau nesaf.

Rhoddwyd yr arddangosiad gan ddefnyddio arddull diffiniad lliw ac fe gafodd hyn lawer o adborth felly mae hyn yn cael ei newid. Ers y digwyddiad, mae pedair set ddata arall wedi'u darparu a byddant yn cael eu hychwanegu pan fydd y prosiect yn ailddechrau ddiwedd mis Mawrth.

Rhannodd Natalie y prawf o gysyniad, a oedd wedi'i greu i ddangos cwmpas hawliau tramwy cyhoeddus ledled Cymru gan ddangos y gwahanol gategorïau. Bydd safoni hefyd o'r priodoliad sydd y tu ôl i'r map er mwyn cael categorïau cyson.

Y camau nesaf ar gyfer y chwe mis nesaf fydd ychwanegu'r data sy'n weddill a chynllunio'r gweithgareddau o adborth y gweithdy, a datblygu a phrofi ymhellach ar yr haen prawf o gysyniad, gan ganolbwyntio'n benodol ar safoni'r priodoleddau. Bydd yr haen unedig ar gael i awdurdodau cynllunio ac mae hyn wedi'i chynllunio ar gyfer y Pasg. Yna gall awdurdodau cynllunio ddechrau edrych ar yr haen ar MapDataCymru a'i gweld, ac, yn dilyn cyfnod o adolygu, mae'r prosiect yn anelu at gasglu mwy o adborth ac ymgysylltiad ganddynt ar hyn. Yn dibynnu ar lwyddiant hynny, bydd y prosiect wedyn yn profi dulliau diweddaru, fel y gellir diweddaru'r data, gyda'r bwriad o weithio ar hyn yn yr hydref. O'r hydref ymlaen, mae'r prosiect yn gobeithio ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach.

**Pwyntiau trafod:**

- Cwestiwn ynghylch a yw casglu data yn cynnwys gwybodaeth am adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus i'r cyhoedd ei gweld. Nodwyd ei bod yn rhwystredig peidio â gwybod pa leoliadau sy'n hygyrch ar gyfer sgwteri symudedd.
- Nododd Natalie nad yw'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd yn cynnwys gwybodaeth am adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus ond y gellid ystyried hyn ymhellach yn y dyfodol.
- Cafwyd cwestiwn ynghylch a oes unrhyw uchelgais i greu un cofnod priffyrdd digidol. Nodwyd bod sawl cofnod priffyrdd gwahanol ar hyn o bryd: map a datganiad diffiniol, rhestr o strydoedd (cofnod o briffyrdd y gellir eu cynnal ar draul y cyhoedd, a ddylai gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus ond nid yw bob amser yn gwneud hynny), y rhestr strydoedd genedlaethol a lleol. Nid yn unig y mae anomaleddau o fewn y map a datganiad diffiniol ond hefyd rhwng gwahanol gofnodion, sy'n creu problemau fel peidio â gwybod ble mae hawliau cyhoeddus. Awgrymwyd bod achos cryf dros ddweud bod angen un cofnod fel bod y cofnod yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus ar y map a datganiad diffiniol a phriffyrdd eraill. Oes unrhyw uchelgais i Lywodraeth Cymru wneud hynny yn y pen draw?
- Ymatebodd Sarah Smith, Llywodraeth Cymru, nad oes bwriad eto, a bydd unrhyw newid i greu un map yn gofyn am newid deddfwriaethol, a bod hyn ymhell yn y dyfodol. Eglurodd Sarah nad y map digidol yw'r map diffiniol. Nid oes gan yr awdurdodau fap diffiniol ar ei gyflwr terfynol eto. Dyma'r cam cyntaf oll mewn prosiect a fydd yn hir iawn.
- Byddai'n ddefnyddiol i bobl wybod statws llwybrau ac arwyneb. Efallai y gellid cynnwys hyn fel haen wahanol.
- Cafwyd sylw i groesawu'r gwaith a wnaed yn gynnes, gan nodi bod llawer o gyfleoedd ar gyfer hygyrchedd ac arwyneb ac ati. Cafwyd cwestiwn am y bwriad ar gyfer ymgynghoriadau â rhanddeiliaid yn yr hydref a pha fath o grwpiau rhanddeiliaid, ac a fyddai Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn rhan o hynny. Awgrymwyd y byddai cael persbectif math eang o ddefnyddiwr yn ddefnyddiol iawn.
- Mae Bill Somerfield, Llywodraeth Cymru, yn arwain y prosiect ond roedd Sarah o'r farn mai'r bwriad yw cael ymgysylltiad ehangach gan randdeiliaid, e.e. rhannu gyda Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru ac ymgynghori â grwpiau defnyddwyr, ond byddai angen cadarnhau dyddiadau ar gyfer y rhain.
- Nodwyd bod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn adnodd gwych yn y gorffennol. Nodwyd bod ysgrifennydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru hefyd yn eistedd ar y Gweithgor Map Digidol a byddai'n parhau i annog ymgysylltu â'r prosiect.
- Awgrymwyd y gallai'r hyn sydd wedi'i fapio gysylltu â'r cyfrifoldebau a'r hawliau sydd gan y cyhoedd ar gyfer llwybrau penodol.
- Ymatebodd Natalie y gellid cynnwys hyn ymhellach yn y dyfodol, gan dybio bod y data yn bodoli a bod modd ei gynnwys, a gallai roi adborth ar hyn i'r grŵp ei ystyried.
- Cafwyd cwestiwn am fylchau yn y data ac a ellir annog yr awdurdodau sydd heb ddarparu data eto i wneud hynny.
- Yr hyn a ddeallir yw, ar gyfer un ardal Parc Cenedlaethol, fod ganddyn nhw ddata gan awdurdodau priffyrdd a bod dau awdurdod yn ymgysylltu, ond mae'n golygu ei

dynnu o'u systemau ac mae yna rywfaint o bryderon ynghylch rhannu data sy'n ymwneud ag ansawdd, felly rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau hynny i allu cynnwys eu data. Ni fyddwn yn rhyddhau'r data nes bod yr holl awdurdodau'n hapus â'r hyn sy'n cael ei rannu ar MapDataCymru, felly rydym yn ymgysylltu'n weithredol â nhw i oresgyn hynny.

## 3. Prosiect mapio llwybrau a theithiau cerdded yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Cyflwynodd Olivia Ragone, Swyddog Data Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (Llwybrau) yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Rhaglen Llwybrau a Theithiau Cerdded, sydd â gweledigaeth o fapio'n glir a darparu rhwydwaith o lwybrau a theithiau cerdded o safon sy'n darparu budd i'r cyhoedd ac yn ysbrydoli mwy o ddefnyddwyr i gael mynediad at rwydwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a bod yn weithredol yn eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y syniad yw y bydd timau gweithredol yn gallu adeiladu a chynnal y rhwydwaith yn hyderus i fodloni disgwyliadau ymwelwyr a chael eu cefnogi gan ganllawiau clir sy'n gyson ar draws pob eiddo. Mae cysondeb yn her ar draws eiddo a gwahanol genhedloedd.

Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n bedair ffrwd waith ar wahân:

- Creu a chynnal: darparu cyngor a chymorth ar gyfer creu a chynnal a chadw llwybrau cyson yn eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Deall yr ased: casglu data am lwybrau a'r rhwydwaith llwybrau. Targedu lleoliad llwybrau, sut y gofelir amdanyn nhw, a'r lefel gywir o fuddsoddiad sydd ei hangen. Bydd yn helpu i ddarparu dyraniad asedau cywir a chefnogi arferion cynaliadwy ar gyfer nodau natur a hinsawdd
- Marcio llwybrau a'u llywio: i roi hyder ac ymdeimlad o ddiogelwch i ddefnyddwyr yn yr awyr agored, wrth iddynt lywio'n ehangach ar ystadau cefn gwlad
- Digidol: hefyd eisiau rhoi gwybodaeth am y rhwydwaith i alluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am yr hyn sy'n addas iddyn nhw, e.e. defnyddwyr cadeiriau gwthio, pobl ag anableddau, i roi gwybodaeth i bobl i'w galluogi i wneud penderfyniadau eu hunain am eu hymweliadau

Nododd Olivia mai'r her, o ran deall yr ased, oedd nad oedd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol un lle canolog i ymwelwyr edrych ar y rhwydwaith llwybrau ac, wrth edrych ar ddata'r cyngor, nodwyd nad oedd llwybrau caniataol wedi'u cynnwys. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol eisiau gwella'r wybodaeth ddigidol a gynigir a gwella cysondeb er mwyn gallu hidlo llwybrau yn unol ag anghenion defnyddwyr a helpu gyda llywio llwybrau. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ceisio gwella ei henw da fel darparwr awyr agored, a chael dealltwriaeth o faint, ansawdd a chyfleoedd ar gyfer cysylltedd a gwaith cynnal a chadw ac i gefnogi timau eiddo i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Dechreuodd y broses o gasglu data yn 2022, a chymerodd chwe mis. Gwnaed hynny yn OpenStreetMap, gan gofnodi lleoliad a chaniatâd mynediad (ar droed, beic, ceffyl a cherbyd modur) ar gyfer pob llwybr ar bob eiddo. Mae OpenStreetMap ar gael i'r cyhoedd ac mae hyn yn golygu y gall y cyhoedd ddiwygio set ddata'r Ymddiriedolaeth

Genedlaethol. Er bod hyn yn cyflwyno heriau, fe'i defnyddiwyd oherwydd ei fod yn rhoi mantais enfawr o ran y broses fapio. Sefydlwyd offeryn monitro i alluogi ceidwaid i wirio unrhyw newidiadau a wnaed i rwydwaith llwybrau yn eu hardal. Mae ganddyn nhw ap archwiliadau hefyd i dimau ceidwaid wneud gwiriadau ac edrych ar anghenion cynnal a chadw.

Ar ôl y rownd gychwynnol o gasglu data, cynhaliwyd rhywfaint o waith dadansoddi a rhannodd Olivia rai o'r prif ganlyniadau. Canfuwyd bod tua 13,000 km o lwybrau ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Wrth ystyried sut y rhannwyd hyn ar eiddo, mae gan ddwyrain Cymru un o'r hydoedd mwyaf (248 km) ond, ar draws rhanbarthau, roedd fel arall yn eithaf isel o ran y cynnig, felly mae yna gyfleoedd i ehangu. Y gymhareb o lwybrau diffiniol : caniataol oedd 1:1.02 gyda rhywfaint o amrywiad. Roedd hyn yn eithaf gwahanol i'r amcangyfrifon cychwynnol (3:1, diffiniol : caniataol), ond nodwyd bod yr amcangyfrif hwn cyn Covid a bod aelodau'r cyhoedd yn mapio'r llwybrau caniataol yn cerdded yn ystod y cyfnod hwn, felly awgrymwyd bod hyn wedi effeithio ar y canlyniadau.

Edrychodd y dadansoddiad ar sut mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwasanaethu gwahanol gymunedau ac argaeledd gwahanol fathau o drafnidiaeth ac, ar draws pob rhanbarth, y canlyniad oedd 70% ar droed, 16% ar feic ac 14% ar geffylau. Yna rhannodd Olivia ddadansoddiad ar gyfer rhanbarthau. Roedd y dadansoddiad hefyd wedi ystyried sensitifrwydd safleoedd y mae llwybrau'n mynd drwyddynt, e.e. llwybrau sy'n croesdorri â Safleoedd Treftadaeth y Byd neu henebion cofrestredig, ac a oedd llwybrau'n ganiataol neu'n ddiffiniol ac ystyriaethau ynghylch rheolaeth. Roedd 34% yn ganiataol ac yn eithaf hawdd eu symud, pe bai pryder ynghylch erydiad traed gan archaeolegwyr.

Adolygodd Olivia y camau allweddol hyd yma a nodi'r camau nesaf, gan gynnwys profion peilot a datblygu data ar gyfer ffrydiau gwaith a rhaglenni eraill. Cynhaliwyd profion peilot yn 2024 a rhannodd fanylion hyn, a oedd yn ceisio deall y raddfa, y cwmpas, yr amser, y dull a'r adnoddau sydd eu hangen i gofnodi priodoleddau ffisegol llwybrau a chael gwared ar rwystrau i fynediad. Bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â cheidwaid a'r Sefydliad Data Agored gyda'r uchelgais i ddarparu data mewn fformat y gall sefydliadau eraill ei ddefnyddio fel y gellir ei ddefnyddio mewn apiau eraill wedyn. Daeth y profion hyn i'r casgliad y byddent yn defnyddio Vespucci, sef ap i olygu OpenStreetMap, i ychwanegu priodoleddau llwybrau ffisegol, a phenderfynu hefyd hyfforddi timau eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i olygu data eu hunain ar ôl i'r broses casglu data wreiddiol gael ei chwblhau. Gallant ei gynnal yn y dyfodol ac uwchsgilio staff mewn Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol. Eisiau sefydlu proses lywodraethu ar eiddo, gyda pherchennog llwybr er mwyn safoni trefniadau.

Cynnig peidio â dileu unrhyw beth ar OpenStreetMap y gellir ei wirio ar lawr gwlad a bod eisiau sefydlu proses ar gyfer rhannu data, e.e. mapiau rhyngweithiol a llywio llwybrau.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar lwybrau cerdded hawdd a rhai sydd eisoes yn cael eu hyrwyddo'n weithredol. Rhoddir ystyriaeth i feicwyr a marchogion (llwybrau amlddefnydd) yn y dyfodol, os yw'n osgoi gwaith ychwanegol. Bydd rowndiau ychwanegol o gasglu data a fydd yn targedu defnydd beicio a marchogaeth os yn bosibl. Eisiau cynnwys gwybodaeth sylfaenol am gyfleusterau i ategu gwybodaeth arall sydd eisoes ar gael fel canllawiau hygyrchedd ar gyfer cyfleusterau toiled.

Yna dangosodd Olivia OpenStreetMap, gan rannu'r hyn y bwriedir ei gynnwys yn y rownd nesaf o gasglu data o ran priodoleddau llwybrau a chyfleusterau a fydd yn cael eu darparu ar eu gwefan, gan gynnwys gwybodaeth ddwyieithog yng Nghymru.

Y camau nesaf yw cynnal deg mis arall o gasglu data i ddeall yr asedau, gan ganolbwyntio ar lwybrau cerdded a hyrwyddir. Y nod yw edrych i wella llywio a marcio llwybrau ar safleoedd. Siarad â chyflenwyr digidol ar gyfer y mapiau rhyngweithiol ar wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a datblygu canllawiau, gwybodaeth a chymorth i staff greu a chynnal data llwybrau.

**Pwyntiau trafod:**

- Croesawyd y gallu i rannu gydag eraill, gan gynnwys MapDataCymru.
- Mewn perthynas â ffermwyr tenant o fewn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, haenau o ddata a allai eu helpu i fod yn hapus gydag amcanion yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cadarnhaodd Olivia fod data ar gael yn agored.
- Cadarnhaodd Olivia fod cymhorthion cerdded a symudedd wedi'u hystyried ar gyfer y llwybrau cerdded a byddai gwybodaeth fel y lledau culaf a gwybodaeth am seilwaith yn cael ei chynnwys i hysbysu defnyddwyr.
- Cadarnhaodd Olivia y byddai llwybrau ar hyd tir â thenantiaid yn cael eu cynnwys yn yr hyrwyddiad. Gwnaed pwynt mewn ymateb, sef y dylai'r tenant gael gwybod am hynny.
- Cafwyd pwynt yn croesawu'r prosiect a'r data sy'n cael ei rannu. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a ellir rhannu gwersi a ddysgwyd o'r prosiect ag eraill, e.e. tirweddau gwarchodedig. Mae hefyd yn werthfawr i dimau ystadau elusennau sy'n berchen ar dir neu safleoedd ymwelwyr am ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynnal a chadw asedau. Cadarnhaodd Olivia fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn siarad â Thirweddau Cenedlaethol a bod ganddyn nhw grŵp llywio o amgylch sgema data. Mae OpenStreetMap wedi'i fapio yn unol â'r hyn y cytunwyd arno gan y gymuned. Mae rhai priodoleddau nad yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hoffi'r ffordd y maent wedi'u cynnwys ac mae'n ceisio eu newid. Hoffai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ryngweithio â sefydliadau eraill ynglŷn â'r prosiect.
- Cafwyd sylw bod gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar fynediad yn gweithio mewn cyd-destun ehangach, e.e. Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, llwybrau awdurdodau lleol, ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfrannu at y rhain ond nid ydynt bob amser yn cynrychioli'r wybodaeth hon mewn dehongliad ar y safle. A yw'r math hwn o wybodaeth wedi'i gynnwys? Nododd Olivia fod yr wybodaeth hon am y rhwydwaith ehangach i fod i gael ei chynnwys yn y mapiau a ddarperir ar y wefan, a bod angen datblygu dealltwriaeth o hyn gyda thimau eiddo.
- Cafwyd sylw bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn meddwl yn greadigol ac yn drylwyr yn y maes hwn. Pa mor gynhwysfawr fydd hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cynnwys ar ystâd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol? E.e. gwybodaeth i gymunedau lleol fwynhau ystâd ehangach yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y tu allan i'r rhwystr talu. Cadarnhaodd Olivia y bydd pob hawl tramwy cyhoeddus yn cael ei chynnwys. Mae OpenStreetMap yn cynnwys yr hyn sydd ar lawr gwlad, gan gynnwys y rhai nad ydynt o reidrwydd wedi cael eu hawlio.

## 4. Arolwg Pobl a Natur: Prif ganlyniadau ar gyfer mynediad a hamdden

Roz Owen, Arweinydd Tîm Gwyddorau Cymdeithasol ac Integreiddio Polisi, Grŵp Tystiolaeth Integredig, CNC

Yn cyflwyno prif dystiolaeth ar hamdden awyr agored a mynediad o Arolwg Pobl a Natur Cymru.

Arolwg lefel poblogaeth a gynhelir ar y cyd â Natural England ac Arolwg Pobl a Natur Lloegr yw Arolwg Pobl a Natur Cymru, gyda sylfaen ymatebwyr o 6,000 o oedolion, sy'n ei wneud yn gynrychioliadol o boblogaeth oedolion Cymru. Mae'n rhedeg bob dwy flynedd (blwyddyn gyntaf 2021–2022), gyda'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno. Cyhoeddir arolwg 2023-24 ym mis Medi 2025. Mae'r arolwg yn eang iawn ac yn cynnwys llawer mwy na hamdden a mynediad. Mae'n ymwneud â sut mae pobl yng Nghymru yn defnyddio ac yn deall yr amgylchedd naturiol, pa mor aml maen nhw'n ymweld a beth maen nhw'n ei wneud, a sut y gall bod yn yr amgylchedd naturiol a'i ddefnyddio ddylanwadu ar ein hiechyd a'n lles. Mae'n olrhain newidiadau dros amser a defnydd yr amgylchedd naturiol ar gyfer grwpiau poblogaeth allweddol ar amrywiaeth o raddfeydd. Mae hefyd yn cwmpasu agweddau ac ymddygiadau amgylcheddol pobl a'r camau y mae pobl yn eu cymryd i amddiffyn yr amgylchedd.

Nodwyd bod cyfnod arolwg 2021-22 yn cwmpasu rhai o'r cyfnodau cloi a chyfyngu a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Chymru yn ystod pandemig Covid-19. Gan mai dyma'r arolwg llinell sylfaen, dydyn ni ddim yn gwybod eto faint o effaith mae hyn wedi'i chael ar rai o'r atebion roedd pobl yn eu rhoi. Nododd Roz na ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol ag arolygon blaenorol ym modiwl hamdden Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru (a gwblhawyd yn 2016) o fewn arolwg cenedlaethol Cymru (a ddaeth i ben yn 2020) oherwydd y newidiadau mewn dulliau a chwestiynau.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod pobl yng Nghymru yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored, ar y cyfan, drwy gydol y flwyddyn. Gwnaed 247 miliwn o ymweliadau â mannau gwyrdd a naturiol yn 2021/22, a'r llynedd ymwelodd 74% o bobl â mannau gwyrdd a naturiol o leiaf unwaith yr wythnos.

Yna rhannodd Roz ganlyniadau data o arolwg 2021/22, a oedd ar gyfer yr ymweliadau a gymerwyd yn yr 14 diwrnod blaenorol hyd at y diwrnod y gofynnwyd cwestiynau i bobl.

Mae 14% o bobl yn ymwelwyr mynych (10+ o ymweliadau o fewn pythefnos), mae 51% yn ymwelwyr anaml, ac nid oedd 21% wedi ymweld o gwbl yn ystod y pythefnos diwethaf.

Rhannodd Roz olwg agosach ar y math o bobl oedd yn ymweld â mannau awyr agored a beth sy'n dylanwadu ar y tebygolrwydd o ymweld. Y bobl a oedd yn sylweddol fwy tebygol o ymweld oedd pobl 40 oed a throsodd, y rhai â char, y rhai â chi, y rhai â phlant a'r rhai ag incwm dros £40,000, tra oedd pobl a oedd yn hunanddisgrifio fel rhai nad oeddent yn wyn, y rhai heb radd prifysgol, y rhai â salwch a'r rhai nad oeddent mewn gwaith yn llai tebygol o ymweld yn y pythefnos blaenorol.

Gofynnodd yr arolwg i bob ymatebydd feddwl am ei fywyd ers i'r cyfyngiadau Covid-19 ddechrau yng Nghymru, a rhannodd Roz ganfyddiadau allweddol am y mathau o bobl a oedd yn teimlo bod mannau gwyrdd yn bwysicach ers i'r cyfyngiadau ddechrau ar gyfer eu lles, pwy oedd yn ymweld amlaf ac am gyfnodau hirach o amser, a hefyd yn edrych ar rai o'r rhwystrau yr adroddwyd amdanynt.

Rhannodd Roz wybodaeth am ble mae pobl yn mynd o fewn gwahanol fathau o fannau gwyrdd a naturiol (e.e. parciau a gerddi trefol, traethau, bryniau, mynyddoedd a rhostiroedd, dŵr mewndirol). Canfuwyd hefyd fod ymweld â mannau gwyrdd a naturiol yn beth cymdeithasol i'w wneud gyda 38% o bobl yn ymweld gyda ffrindiau a theulu; mae gan 37% gi neu gŵn hefyd, mae 2% yn rhan o grŵp wedi'i drefnu, ac mae 26% yn ymweliadau unigol. Mae'n bwysig deall gyda phwy mae pobl yn mynd, oherwydd dylai hyn helpu i feddwl am sut a gyda phwy rydym yn cyfathrebu.

Wrth edrych ar sut mae pobl yn mynd allan, teithiodd 44% o bobl lai na milltir ac yn gyffredinol roedd 91% wedi teithio deng milltir neu lai. Nid oedd cael car yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r pellter a deithiwyd oni bai ei fod yn bellach na deng milltir. Nodwyd y byddai hyn yn ddiddorol i'w olrhain dros amser gan y gallai cyfyngiadau Covid fod wedi dylanwadu ar hyn.

O ran gweithgareddau, mae pobl yn debygol o wneud mwy nag un gweithgaredd, ond bydd un o'r rhain yn cael ei ystyried yn brif weithgaredd iddynt. Gall gweithgareddau pobl lywio eu cymhelliant i ymweld a bydd yn llywio eu canfyddiadau o ansawdd y profiad. Rhannodd Roz ddadansoddiad o'r gwahanol weithgareddau. Yna aeth ymlaen i rannu'r pethau a oedd wedi eu cymell i fynd allan yn yr awyr agored.

Gofynnodd yr arolwg hefyd i bobl nad oeddent wedi ymweld beth oedd eu pryderon, a rhannodd Roz y rhain, gan gynnwys nad oedd gan 30% unrhyw bryder cyffredinol gwirioneddol, roedd 25% yn pryderu am ddiffyg cyfleusterau, ac roedd 21% yn pryderu am ymweld ar ôl iddi nosi. Roedd 21% yn poeni am ddal Covid. Mae'n bosibl mynd i'r afael â phryderon pobl, e.e. teilwra cyfleusterau, ymgyrchoedd ac ati.

Rhannodd Roz negeseuon allweddol a ddaeth allan o'r arolwg:

- **Pwysigrwydd mannau gwyrdd:** Mae mannau gwyrdd a naturiol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr yng Nghymru am eu cyfraniad at iechyd corfforol a llesiant meddyliol a chysylltu pobl â natur.
- **Anghydraddoldebau mynediad:** Mae anghydraddoldebau sylweddol yn bodoli o ran pwy sy'n defnyddio ac yn elwa o'r mannau hyn, gyda ffactorau fel oedran, incwm, ethnigrwydd, iechyd a statws cyflogaeth yn chwarae rhan.
- **Effaith Covid:** Er bod y pandemig wedi cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mannau awyr agored, fe wnaeth hefyd dynnu sylw at rwystrau a oedd yn bodoli eisoes a chreu rhai newydd, fel pryderon ynghylch gorlenwi.
- **Angen am welliant:** Mae angen gwella cyfleusterau, diogelwch a mynediad, a mynd i'r afael â phroblemau fel sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n bwysig creu mannau gwyrdd lleol sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r cyhoedd ac a all annog defnydd amlach ar draws grwpiau demograffig.

- **Negeseuon targedig:** Mae deall pwy sy’n defnyddio mannau gwyrdd a naturiol a chyda phwy yn helpu i dargedu negeseuon a gwybodaeth i annog ymddygiadau cadarnhaol o ran yr hinsawdd a natur.
- **Monitro yn y dyfodol:** Mae Arolwg Pobl a Natur Cymru yn darparu llinell sylfaen hanfodol, a bydd fersiynau yn y dyfodol yn hanfodol ar gyfer olrhain tueddiadau a gwerthuso effaith ymyriadau.

Cynhelir yr arolwg bob dwy flynedd. Fe’i cynhelir fel ystadegau swyddogol sy’n cael eu datblygu, gan gydweithio â’r Swyddfa Ystadegau Gwladol a’r rheoleiddiwr ystadegol swyddogol. Mae hyn yn golygu bod dyddiad cyhoeddi ddiwedd mis Medi, ac yna bydd data ar gael ar wefan CNC a bydd dolen yn cael ei chylchredeg.

**Pwyntiau trafod**

- O ran gwerthuso effaith ymyriadau a’r hyn y gellid defnyddio’r data ar ei gyfer, ymatebodd Roz y byddai’n gobeithio, ar raddfa genedlaethol, y byddai hyn yn llywio rhaglenni newid ymddygiad, yn helpu i ddeall pa gyfleusterau y gallai fod eu hangen ble, ac yn helpu i agor sianeli cyfathrebu gyda defnyddwyr. Bydd hefyd yn helpu i dargedu pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr, er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio mannau awyr agored yn amlach. Ar hyn o bryd, mae hon yn raddfa sy’n gynrychioliadol ar lefel genedlaethol. Dros amser, bydd yr arolwg yn dod yn fwyfwy defnyddiol ar raddfa fwy lleol a gofod llai.
- Diddordeb gan aelodau i weld y sleidiau a’r dolenni i ragor o wybodaeth. Bydd y rhain yn cael eu cylchredeg i aelodau.

## 5. Cyfraniadau ysgrifenedig

Roedd cyfraniadau ysgrifenedig wedi’u cylchredeg a diolchwyd i gyfranwyr a’u gwahodd i dynnu sylw at unrhyw bwyntiau o’u diweddariadau. Cynhwyswyd cysylltiadau e-bost ar gyfer cyfranwyr i alluogi aelodau i fynd ar drywydd unrhyw ymholiadau.

Tynnodd Sarah Smith, Llywodraeth Cymru, sylw at y diweddariad mewn perthynas â’r dyddiad cau o 2026 a’r safbwynt a nodir yn y cyfraniad ysgrifenedig. Hefyd elfen mynediad dewisol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy lle mae mynediad cyhoeddus yn dod (rhif 17, mynediad ac ymgysylltu â’r amgylchedd naturiol). Mae’r tîm wedi bod yn datblygu gwaith gyda thîm y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a bydd hyn yn cael ei gyflwyno i’r grŵp swyddogion a hoffent ddod yn ôl at y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru gyda rhagor o fanylion am hyn. Hoffai ystyried trefnu sesiwn bellach ar gyfer aelodau sydd â diddordeb.

Dywedodd Jonathan Hughes, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, fod gwaith tîm Olivia yn rhan o strategaeth newydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae rhoi terfyn ar fynediad anghyfartal i leoedd yn un o’r themâu allweddol, gan nodi bod anghydraddoldebau rhwng y rhai sy’n mwynhau’r awyr agored. Mae yna hefyd ymgyrch i ysbrydoli pobl am natur. Roedd am rannu’r strategaeth ac roedd croeso i’r aelodau gyfeirio unrhyw ymholiadau ato.

Gofynnodd Beverley Penney am yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i CNC gan y byddai pobl â diddordeb mewn deall y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar y tîm mynediad. Mynegodd gydymdeimlad â’r rhai sy’n rhan o broses anodd, a gellir gweld o

heddiw bwysigrwydd y maes gwaith i Gymru ar draws ystod o sectorau. Gobeithio y gellir rhannu effeithiau'r newidiadau gyda'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru ac y gellir ailadeiladu'r tîm maes o law.

Ymatebodd Bill Purvis fod y rhaglen newid hon yn dal i fynd rhagddi felly nad oedd wedi'i chynnwys fel diweddariad. Mae'r elfen mynediad awyr agored a hamdden ddiwygiedig wedi'i datrys, ac effeithiwyd ar y tîm gan y newid gyda gostyngiad yn swyddi cynghorydd gyda dwy swydd yn cael eu dileu. Wrth edrych ar waith pontio ar hyn o bryd, bydd y cwtogi hwn yn cael effaith ar y gwasanaeth a ddarperir a bydd yn cael ei egluro pa waith y bydd angen ei flaenoriaethu neu ei atal o ganlyniad i'r cwtogi hwn er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd gan y sefydliad.

Ychwanegodd Rosie Plummer, o safbwynt y bwrdd, fod y tîm mynediad yn cael ei werthfawrogi am y swm o waith a'r cwmpas y mae'n ei gyflawni ar gyfer tîm bach. Mae'n broses barhaus a dyma'r her y mae llawer yn y sector cyhoeddus yn ei hwynebu ac mae'n rhaid i CNC edrych yn galed ar beth sydd angen ar gyfer y ffocws allweddol a'r blaenoriaethau strategol. Bydd rhaid ceisio bod yn arloesol ac yn weithredol gydag adnoddau cyfyngedig neu lai, ac edrych ar ffyrdd o integreiddio'n well ac arloesi a defnyddio technoleg a sgiliau staff. Mae cefnogaeth a chydweithrediad y fforwm yn cael eu gwerthfawrogi ac yn helpu.

Dywedodd Charles de Winton mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf yn y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru fel cynrychiolydd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Diolchwyd i'r ysgrifenyddiaeth am y gefnogaeth. Roedd wedi bod yn aelod o'r grŵp ers blynyddoedd lawer, a diolchodd i'r aelodau am eu cyfeillgarwch a'u cefnogaeth.

Dywedodd Anthony Richards, Parciau Cenedlaethol Cymru, hefyd y byddai'n ymddeol ac mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf. Nododd fod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru yn fforwm gwych a'i fod yn cysylltu aelodau ag CNC a Llywodraeth Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Charles ac Anthony am eu mewnbwn, eu hamser a'u hymrwymiad gwerthfawr i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru dros nifer o flynyddoedd.

Ymunodd Lesley Jones, Bwrdd CNC a'r Cadeirydd newydd, â Bwrdd CNC 18 mis yn ôl. Mae'n edrych ymlaen at weithio gyda'r fforwm. Ychwanegodd werthfawrogiad i'r tîm, ac yn eang ar draws CNC, ar ôl bod trwy gyfnod anodd gyda'r achos dros newid.

Croesawodd Ruth Rourke Lesley a mynegodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda hi. Yn ei rôl fel Dirprwy Gadeirydd ar ran yr aelodau a'r ysgrifenyddiaeth, diolchodd i Geraint am fod yn gadeirydd gwych ac i Rosie fel cynrychiolydd y bwrdd am ei chyfraniadau. Roedd yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus CNC i'r fforwm.

Cododd Rebecca Brough enghraifft a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd diwygio mynediad i symleiddio prosesau hawliau tramwy cyhoeddus, a gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch a yw'r gwaith diwygio yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu.

Dywedodd Sarah Smith, gan fod hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, y bydd yn gyfrifoldeb ar lywodraeth nesaf y Senedd. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn

cyflwyno ceisiadau ond nid oes dim wedi'i gyflwyno gan weinidogion ar gyfer deddfwriaeth yn nhymor nesaf y Senedd eto.

## 6. Sylwadau i gloi – Cadeirydd

Diolchodd Geraint, fel y Cadeirydd sy'n gadael, i'r holl aelodau. Mae wedi mwynhau cadeirio'r fforwm a dod i adnabod yr aelodau yn fawr iawn. Bu dull a thrafodaethau cytbwys iawn. Mae cyflwyniadau a gwybodaeth a rennir yn ei gwneud yn fforwm diddorol, ac mae yna gyfoeth o brofiad a datblygu syniadau yma bob amser. Anogodd aelodau i barhau i weithio i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed dros eu sefydliadau.

Diolchodd i'r tîm a gefnogodd y fforwm a phawb arall a oedd yn rhan o'r gwaith ac aelodau gwerthfawr iawn o CNC. Diolchodd i Ruth fel dirprwy am ei hamser ac am gamu i mewn i gadeirio'r cyfarfodydd, ac am ei chefnogaeth drwy gydol ei dymor fel Cadeirydd, a diolchodd i Rosie am ei chyfraniadau fel cynrychiolydd y bwrdd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 1 Gorffennaf 2025 a bydd ar-lein.